**Eluned Morgan AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1456
Ein cyf/Our ref EM/05901/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

deisebau@senedd.cymru

03 Gorffennaf 2024

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 13 Mehefin ynghylch Deiseb P-06-1456 yn galw am ymchwiliad cyhoeddus i gyfuno’r canolfannau Gwasanaethau Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) yn y Canolbarth a'r Gogledd-orllewin.

Rwy'n cydnabod pa mor gryf yw teimladau ymysg cymunedau yn y Canolbarth a'r Gogledd ynglŷn â'r mater hwn.

Gwnaed y penderfyniad i gyfuno gwasanaethau mewn canolfan newydd gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, a’r bwriad yw sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael yr ymateb gofal critigol arbenigol a ddarperir gan EMRTS pan fo angen hynny, a'u bod yn cael eu trosglwyddo mor gyflym â phosibl at y clinigwyr priodol er mwyn sicrhau’r cyfraddau goroesi a’r canlyniadau gorau. Mae hyn yn cyd-fynd â'n disgwyliad polisi ar gyfer darparu'r gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf. Rydym wedi cael sicrwydd y bydd hyn yn galluogi mwy o bobl ledled Cymru, gan gynnwys ym Mhowys a'r Gogledd, i dderbyn yr ymateb gofal critigol arbenigol a ddarperir gan EMRTS, pan fo angen gwasanaeth o'r fath arnynt.

Rwyf wedi fy sicrhau y bydd y penderfyniad hwn hefyd yn galluogi EMRTS i ddarparu gwasanaeth mwy o faint yn ystod y nos i bobl yn y Gogledd a'r Canolbarth, gan wella'r posibilrwydd o ganlyniadau gwell i bobl sydd â chyflyrau sy'n peryglu eu bywydau. Mae hyn yn adeiladu ar y trefniadau presennol lle mai dim ond y ganolfan yng Nghaerdydd sy'n darparu gwasanaeth yn ystod y nos.

Mae’r arbenigwyr sy'n ymwneud â chynllunio a darparu'r gwasanaethau hyn - Cyfarwyddwr Clinigol EMRTS ac Elusen Ambiwlans Awyr Cymru - yn gytûn mai cyfuno gwasanaethau fel hyn yw'r penderfyniad cywir i bobl Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod cyfarfod Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru ar 23 Ebrill 2024, rhoddwyd sicrwydd ynghylch ansawdd y data a ddefnyddir, hyd a thrylwyredd y broses ymgysylltu, a'r gwerth a ychwanegir drwy gyfuno gwasanaethau.

Cyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor oedd y penderfyniad hwn, a rhaid i'r cyfrifoldeb hwnnw aros yn nwylo'r Cyd-bwyllgor. Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor er mwyn cynllunio, sicrhau a chomisiynu ystod o wasanaethau arbenigol ar y cyd, gan gynnwys gwasanaethau EMRTS. Nid penderfyniad ar gyfer Llywodraeth Cymru yw hwn, ac ni ddylai penderfyniad gweithredol o'r math hwn fod yn benderfyniad i Weinidogion ei wneud.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care